



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Chwefror 2016 am 6.30yh yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 February 2016 at 6.30pm at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/Councillors** John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Dai Brabrook, Clive Davies, Ken Edwards, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i gwmni 4CG am gael hurio'r swyddfeydd yn Hen Swyddfa'r Heddlu am dri chyfarfod ym mis Ionawr; diolchodd hefyd i Mrs Shân Williams am y croeso a'r lluniaeth a ddarparwyd.

Trist oedd cyhoeddi marwolaeth cyn-Glerc Cyngor Tref Aberteifi, Mr Dafydd Ieuan Jones, un oedd heb fwynhau'r ieched gorau ers blynyddoedd bellach; bu'n glerc y cyngor o 2001-2008. Cytunwyd anfon carden o gydymdeimlad at ei weddw, Mrs Pam Jones a'r teulu. Bu'r Maer ar ymweliad â PCSO Steffan Jones yn Hendy-gwyn ar Daf; edrychir ymlaen i'w weld yn ôl ar hyd strydoedd y dref yn fuan. Diolchwyd i'r Cynghorwyr Melfydd George ac Akira Shimazaki am unwaith eto archwilio cyfrifon y cyngor.

Pryder yw deall bod storfa B&Q yn cau ei ddrysau ym mis Mai – ergyd arall i ddelwedd fasnach y dref. Derbyniodd y Maer wahoddiad swyddogol oddi wrth Faer Brioude, John-Jacques Faucher, i fynychu'r *Foire Expo* (ffair nwyddau) a gynhelir bob yn ail flwyddyn, ac sydd eleni yn cyd-fynd â dathliadau Suzzara/Gonzaga o'r Eidal sydd bellach wedi gefeillio â thref Brioude ers 30 mlynedd. Cynhelir y dathliadau o 5-8 Mai. Diolchodd y Maer i Fugeiliaid Strydoedd Teifi am y gwaith rhagorol y maent yn ei gyflawni bob nos Sadwrn ers chwe blynedd bellach i gynorthwyo pobl ieuanc a'r rheini sydd tan ddylanwad alcohol; mae'r diolch pennaf yn mynd i Eglwys Mount Zion, Eglwys New Life, Eglwys y Santes Fair, Capeli Seion (Crymych) a Bethabara (Ffynnon-groes) am ddyfalbarhau â'r gwasanaeth gwerthfawr hwn.

Cynhelir cyfarfod o dan awenau Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr, fore lau, 4 Chwefror am 11.00yb i drafod y cam ymlaen i atal llifogydd yn yr ardal. Cadarnhaodd y Maer ddyddiad y digwyddiad ffurfiol i ddathlu uno Coleg Ceredigion yn rhan o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Neuadd y Dref, ddydd Llun, 21 Mawrth am 11.00yb. Ceir rhagor o fanylion maes o law.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed all to the meeting. He thanked the officers of 4CG for allowing the council the use of their office facilities at the Old Police Station for three meetings during January; gratitude was expressed to Mrs Shân Williams for her hospitality and for providing refreshments.

It was with sadness that the Mayor announced the passing of Mr Dafydd Ieuan Jones, past clerk to the council who had not enjoyed the best of health for a number of years; Mr Jones had been the clerk from 2001-2008. It was agreed that a card of condolences be forwarded to Mrs Pam Jones and family from the council. Cllr Adams-Lewis recently visited PCSO Steffan Jones at his home in Whitland where Steffan is still recovering from his illness – his return to work in Cardigan will be most welcome. Councillors Melfydd George and Akira Shimazaki were thanked for completing the paper trail of the council's accounts.

Members were most concerned at the announcement of the closure of the B&Q stores in Cardigan in May – another setback to the development of commerce in Cardigan. The Mayor has accepted an official invitation from the Mayor of Brioude, Jean-Jacques Faucher, to attend the *Foire Expo* which is held every other year, and which this year celebrates the 30 years of the twinning between Suzzara/Gonzaga in Italy and Brioude – the celebrations will be held from 5-8 May. The Mayor thanked the Teifi Street Pastors for their excellent work patrolling the street of Cardigan during the twilight hours of Saturday/Sunday assisting young people and others under the influence of alcohol. This work has continued for the last six years and its success is due to the commitment and dedication of members from Mount Zion Baptist Church, the New Life Church, St Mary's Church, Capel Seion (Crymych) and Capel Bethabara (Crosswell).

A meeting under the auspices of Natural Resources Wales and Welsh Water will be held at the Fisherman's Rest on Thursday, 4 February at 11.00am to further discuss flood alleviation schemes in the low-lying areas. The Mayor stated that the official event to celebrate Coleg Ceredigion becoming a division of the University of Wales Trinity Saint David will be held at the Guildhall on Monday, 21 March at 11.00am – further details are expected soon.

2. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyngh./Cllrs Melfydd George, Mark Cole, Neal Jones, Richard Jones,

3. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr Clive Davies	Tâl/Payment (4CG), <i>Gohebiaeth/Correspondence</i> 228
-----------------------------	---

4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Ionawr.**

Confirmation of Minutes of 5 January Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cofnodion yn gywir.

Cllr Jane Roche proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Dai Brabrook.

5. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyllideb y Cyngor 12 Ionawr.**

Confirmation of Minutes of 12 January Council Budget Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y cofnodion yn gywir.

Cllr Clive Davies proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

6. **Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

Tud. 1065, eitem 3: Dywedodd y Cyng. Catrin Miles ei bod wedi cael sgwrs yn hwyrach gyda'r Arolygydd am y broblem o yfed alcohol tan oedran. Cadarnhaodd yr Arolygydd bod yr heddlu yn delio â'r broblem ac maent wedi cysylltu â thafarnau a chlybiau lleol.

Page 1065, item 3: Cllr Catrin Miles stated that she had later discussed the under-age drinking problem with the Inspector who confirmed that the police are dealing with the local pubs and clubs regarding this matter.

7. **Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer am fis Ionawr i bob aelod yn y cyfarfod.

The Mayor's diary for the month of January was distributed to all members at the meeting.

8. **Cynllunio / Planning**

Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Penderfyniad / Decision
A150676	Bedroom 3 East Wing, Cardigan Castle.	Proposed internal alterations to bedroom 3 to provide an en-suite toilet and shower facility	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (2)

9. **Biliau wedi eu talu / Bills paid.**

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
5/12/15	David Evans & Sons: <i>Ysgythru tarian a lluniau'r Meiri.</i> Engraving of shield and Mayor's portraits.	B5	4206	£15.20 (2.53)
19/1/16	Telemat: <i>Rhestru enw parth /</i> Registering of e-mail	A17	4207	£17.40 (2.90)
1/2/16	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc /</i> Clerk's Salary (<i>Ionawr/January</i>)	A3	4208	£748.90 (0.00)
15/1/16	Menter Aberteifi: <i>Trydan goleuadau Nadolig /</i> Electricity supply for Christmas lights	B1	4209	£35.00 (0.00)
15/1/16	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Argraffu deunydd Sul y</i> <i>Cadoediad /</i> Remembrance Day printing supplies	A7	4210	£130.40 (6.40)
15/1/16	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Papur swyddfa /</i> Stationery	A7	4210	£43.20 (7.20)

25/1/16	Caffi Sgwâr Finch Square Café: <i>Stampiau / Stamps</i>	A8	4211	£64.80 (0.00)
17/12/16	J. Harries Refrigeration Ltd.: 2 Plug-in Timers (Christmas lights)	B1	4212	£19.44 (3.24)
1/2/16	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa / Rent of Office</i>	A9	4213	£238.33 (0.00)
2/2/16	Cymdeithas Cynnal/Cefnogi Cefn Gwlad (4CG): <i>Hurio ystafell / Hire of room (Old Police Station)</i>	A9	4214	£60.00 (0.00)
31/1/16	<i>Bachan Deche / Handy person (Ionawr/January)</i>	A19	4215	£165.00 (33.00)

Cynigiodd y Cyng. Catrin Miles bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Ken Edwards.

Cllr Catrin Miles proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Ken Edwards.

Derbyniadau/Receipts: 9/12/15 Lloyds Bank: *Llog y Banc/Bank Interest* £4.34
12/1/16 Cantref: *Hurio offer cyfieithu/Hire of translating equipment* £15.00

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Bu'r Cyng. Adams-Lewis yn y gwrandawriad i drafod yr apêl i ailagor llwybr-troed Bro Teifi. Disgwylir ymateb gan yr archwilydd o Gaerdydd mewn ychydig amser.
- (ii) Gwyntyllodd y Cyng. Adams-Lewis y penderfyniad i symud y llyfrgell i swyddfa'r cyngor yn Stryd Morgan. Mynegodd y Cyng. Gwynfi Jenkins ei wrthwynebiad i'r cam yma gan bwysleisio ar maint yr ystafell awgrymedig yno a pherygl i'r henoed a phlant wrth groesi'r ffordd. Ychwanegodd y Cyng. Adams-Lewis bod cytundeb i osod croesfan yn Stryd Morgan er diogelwch a hefyd lifft i'r llawr cyntaf yn yr adeilad.
- (iii) Mae'r cyngor sir wedi penderfynu gosod mesuryddion newydd yn y meysydd parcio; byddant yn symleiddio'r dasg o dalu. Disgwylir adroddiad pellach o'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet cyn daw penderfyniad ar ddyfodol costau parcio yn y dref.

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Nododd y Cyng. Miles fod yr hen bont wedi ailagor ynghynt na'r disgwyl a bod cerddwyr wedi croesi'n ddiffwdan yn ystod y cyfnod yr oedd ar gau. Mae'r gwaith ar Heol Dinbych-y-pysgod yn parhau.
- (ii) Eiliodd y Cyng. Miles eiriau'r Cyng. Adams-Lewis ynglŷn â phenderfyniad y cyngor sir i ail-leoli'r llyfrgell. Pwysleisiodd bod rhaid i'r awdurdod gymryd camau difrifol i gwrdd â gofynion y toriadau. Mae'r toriadau, yn enwedig i bedwar awdurdod yng Nghymru, yn cynnwys Ceredigion, yn enbydus.
- (iii) Oherwydd y tywydd garw, mae'r gwaith ar dir Cae Chwarae Pentop wedi ei amharu'n ddifrifol. Gobeithio y bydd y contractwr yn medru dechrau ar y gwaith yno cyn bo hir.

(c) Y Cyng. Mark Cole (anfonwyd e-bost yn ei absenoldeb):

- (i) Mynegodd y Cyng. Cole ei siom ar benderfyniad y cyngor sir i symud llyfrgell Aberteifi o Ganolfan Teifi i swyddfeydd y cyngor sir yn Stryd Morgan heb yn gyntaf ystyried cynnig Principality Developments.
- (ii) Dywedodd y Cyng. Cole bod y gwrandawriad i'r apêl yn erbyn agor y llwybr-troed ym Mro Teifi wedi ei gynnal ar 28 Ionawr. Tebyg y bydd sawl wythnos cyn i'r Arolygydd o Gaerdydd ddod i benderfyniad.
- (iii) Yn dilyn ei adroddiad yng nghyfarfod mis Ionawr o'r cyngor, dywedodd y Cyng. Cole ei fod wedi cyfarfod â Simon Edwards o adran briffyrdd y cyngor sir i drafod man cyfleus i osod y banc poteli ym Mharc y Ffair. Maent yn awr wedi eu gosod ychydig ymhellach o gefn tai Feidrfair; cedwir llygad ar unrhyw achwynion a ddaw o hyn.
- (iv) Mae Cyngor Sir Ceredigion bellach wedi gwneud cais am grant oddi wrth Lywodraeth Cymru tuag at gronfa i wella'r palmentydd a hwyluso'r drafnidiaeth mewn amryw fannau yn y dref. Mae'r cynllun i gymryd dwy flynedd, felly disgwylir cais am gyfraniad eto y flwyddyn ariannol nesaf. Os felly, caiff y cais ei drafod yng nghyfarfod y gyllideb yn Ionawr 2017.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis attended the hearing of the appeal against the reopening of the Bro Teifi footpath on 28 January. The result will be announced by the Inspector in due course.
- (ii) Cllr Adams-Lewis highlighted the proposal to move the library from Canolfan Teifi to the Ceredigion County Council offices in Morgan Street. Cllr Gwynfi Jenkins firmly voiced his opposition to the proposal, referring to the unacceptable reduction in floor area and the

danger to elderly library users and young children traversing the highway on the Morgan Street junction. Cllr Adams-Lewis added that plans were afoot to create a pedestrian crossing at Morgan Street and also a lift to the first floor of the building.

- (iii) The county council has decided to place new parking meters in local car parks which will be more user-friendly. A report from the county council Scrutiny Committee and the Cabinet is expected soon regarding the parking charges in the Cardigan car parks.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles announced that the work on the old bridge was near completion and well in advance of the stipulated date; pedestrians had been able to cross the river without hindrance during the period of repair. The work on the Tenby Road is continuing.
- (ii) Cllr Miles seconded Cllr Adams-Lewis' statement regarding the decision of the county council to relocate the town library. She stressed that firm decisions had to be taken to accommodate the huge cuts imposed on the authority. The reduction in Welsh Government funding, especially for four authorities including Ceredigion, have been most difficult.
- (iii) Due to the continuing wet weather experienced during the past months, the ground work at Pentop Play Area has been much delayed. It is hoped that the ground conditions will allow the contractor to commence work very soon.

(c) Cllr Mark Cole (e-mail received in his absence):

- (i) Cllr Cole voiced his disappointment at the decision to move Cardigan Library to Morgan Street without the county council seriously considering the offer made by Principality Developments.
- (ii) Cllr Cole stated that the Bro Teifi/Rhos-y-dre footpath hearing took place on 28 January. It will likely be a few weeks before the Inspector from Cardiff makes his judgement.
- (iii) As reported in the January town council meeting, Cllr Cole stated that he has since met with Simon Edwards of the county council's highways department to discuss the placement of the bottle banks back at the Fairfield car park. They have now been placed at a further distance from the back entrances to the houses on Feidrfair; council officers will monitor any complaints received about this re-location.
- (iv) Cllr Cole stated that Ceredigion County Council has submitted the Active Travel Area application to the Welsh Government for consideration. It is now to be a two year bid and a match-funding contribution for the second year application from the town council has been requested. This will be considered at the next precept meeting in January 2017.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
202	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Gwahoddiad i gynig safle i Eisteddfod Genedlaethol 2020.</i> Invitation to identify sites for the 2020 National Eisteddfod to be held in Ceredigion.	<i>Cytunwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dref gyda'r dyddiad i'w drefnu.</i> It was agreed to hold a public meeting in the Guildhall; date to be arranged.
203	CSC/CCC (Gari Jones): <i>Cynllun drafft o waith ar ffyrdd y dref.</i> Draft plan of the scheme proposals for Cardigan (Local Transport Fund)	<i>E-bost wedi ei flaenyrru i aelodau 28/1/16.</i> E-mail forwarded to members 28/1/16. <i>Cynigiwyd gan/Proposed by Cllr Catrin Miles that the council allocates £5,000 towards the fund during the current financial year.</i> <i>Eiliwyd gan/Seconded by Cllr Clive Davies.</i>
204	CSC/CCC (Marianne De Vries): <i>Cau'r ffordd (Stryd Wiliam).</i> Road closure (William Street, 8.00-17.00, 14/2/16)	<i>Nodwyd.</i> Noted.
205	CSC/CCC (Eifion Jones): <i>Cynllun Mabwysiadu Llwybrau / Adopt a Path Scheme</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
206	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymgynghoriad ar ardaloedd cadwraeth arbennig arfaethedig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig arfaethedig newydd ac estynedig ar gyfer adar y môr.</i> Natural Resources Wales: Consultation of proposed special areas of conservation for harbour porpoises and proposed new and extended special protection areas for seabirds.	<i>Manylion ar gael ar y safle we isod.</i> Further details available on the NRW website: www.naturalresources.wales/mn2k
207	Ms Amy Kelley (Founder and owner of Ice Green): <i>Busnes newydd.</i> New business requires advice re. location, etc.	<i>Cytunwyd cyfeirio Ms Kelley at gwmni 4CG.</i> It was agreed to redirect Ms Kelley's request to 4CG.

208	Menter Aberteifi: (a) <i>Cais am lythyr o gefnogaeth / Application for a letter of support (Updating signage in Cardigan)</i> (b) <i>Cynnig agor y toiled cyhoeddus hyd ddiwedd Ebrill. Offer to keep open the public toilet until the end of April.</i> (c) <i>Boreau Coffi / Coffee Mornings (12/3/16). 2018 date to be confirmed.</i>	(a) <i>Llythyr o gefnogaeth wedi ei anfon ar 28/1/16. Letter of support forwarded on 28/1/16.</i> (b) <i>Diolchwyd i Menter am y weithred. Menter was thanked for the gesture.</i> (c) <i>Awgrymwyd bod tocynnau perthnasol yn cael eu hargraffu a'u dosbarthu yn yr is-bwyllgorau. It was suggested that tickets be printed and distributed at the sub-committee.</i>
209	Cyngor Cymuned y Ferwig Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
210	Cyngor Cymuned Llandudoch /St Dogmaels Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
211	Cyngor Cymuned Cenarth Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
212	Cyngor Cymuned Manordeifi Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Pe bai cais y cyngor yn llwyddiannus mae Cyngor Cymuned Manordeifi wedi addo cyfrannu £3,000 i'r Gronfa Leol. If the council's application is successful, Manordeifi Community Council has pledged £3,000 to the local fund.</i>
213	Cyngor Cymuned Penbryn Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
214	Cyngor Cymuned Troedyrur Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
215	Cyngor Cymuned Cilgerran Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
216	Cyngor Cymuned Nanhyfer / Nevern Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
217	Cyngor Cymuned Eglwysrwrw Community Council: <i>Llythyr o gefnogaeth am gais y cyngor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i ardal Aberteifi yn 2020.</i> Letter of support of the council's invitation to invite the National Eisteddfod to the Cardigan area in 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
218	Scope Supporter Care: <i>Gwybodaeth am gasgliadau.</i> Notification of Scope house-to-house collection dates	<i>Nodwyd.</i> Noted.
219	Mark Williams AS/MP: <i>Dyddiadau cymorthfeydd / Surgery dates</i>	<i>Wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Displayed on notice board.

220	Prestec UK Ltd: <i>Manylion am gywiro'r maes sgrialu.</i> Skateboard park improvement/repair details.	<i>Bu'r Cynghorwyr Adams-Lewis, Graham Evans a'r Bachan Deche mewn cyfarfod â Mr Pat Quarton o gwmni Prestec i archwilio'r maes sgrialu. Mae Mr Quarton yn dymuno gweld y cynlluniau gwreiddiol cyn anfon amcanbris am y gwaith. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Ms Sara Edwards.</i> The above councillors met Mr Pat Quarton from Prestec to inspect the skateboard park. Mr Quarton wishes to see the original plans before submitting a quotation for the work. The clerk was asked to contact Ms Sara Edwards regarding this.
221	Action on Hearing Loss: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance.	<i>Ffurflen gais wedi ei hanfon.</i> Application form forwarded on 19/1/16. <i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
222	Cardigan Classic Car Club: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial assistance.	<i>Ffurflen gais wedi ei hanfon.</i> Application form forwarded on 19/1/16. <i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee meeting.
223	<i>Un Llais Cymru: Aelodaeth 2016-17.</i> One Voice Wales: Membership for 2016-17.	<i>Cynigiwyd gan y Cyng. Catrin Miles nad oedd y cyngor yn ailymaelodi; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.</i> It was proposed by Cllr Catrin Miles that the Council does not re-register; seconded by Cllr Dai Brabrook.
224	Inspector Christina Fraser: <i>E-bost yn hysbysu'r cyngor am ei secondiad. E-mail informing the council of her secondment to the Force Control Room for 3 months.</i>	T-Inspector Gareth Jones will be in charge of Cardigan Police Station during the Inspector's absence.
225	<i>Adroddiad o ymchwiliad mewnol.</i> Report of the audit trail undertaken by Cllrs Melfydd George and Akira Shimazaki, 14/1/16.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
226	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Ionawr.</i> Handyperson's January report.	<i>I'w drafod tan eitem 13.</i> To be discussed under item 13.
227	CSC/CCC (Cathryn Morgan): <i>Ffurflen Gais i Lywodraeth Cymru am gefnogaeth ariannol.</i> Rural Community Development Fund – Expression of Interest – Criteria and Application Form (Skateboard Park funding) (Welsh Government Rural Communities Rural Development Programme 2014-2020)	<i>Nodwyd.</i> Noted. <i>Mae'r cais wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru ar 30 Ionawr.</i> The application had been forwarded to the Welsh Government on 30 January.
228	Cymdeithas Cynnal/Cefnogi Cefn Gwlad (4CG): <i>Cais am gymorth ariannol i gynnal toiledau'r dref.</i> Application for financial aid to support the reopening of toilets at Feidrfair and Chancery Lane	<i>Cynigiwyd gan/Proposed by Cllr Graham Evans that the council allocates £8,000 towards the fund.</i> <i>Eiliwyd gan/Seconded by Cllr Dai Brabrook.</i>

Bronwen Morgan: *Prif Weithredwr / Chief Executive.*

Cathryn Morgan: *Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator*

Eifion Jones: *Cynllun Mabwysiadu Llwybrau / Adopt a Path Scheme*

Gari Jones: *Peiriannydd Cynorthwyl Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy*

Marianne De Vries: *Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section*

12. Adolygiad yr Asesiad Risg / Review of the Risk Assessment (copi wedi ei flaenyrru i'r aelodau drwy e-bost, 26/1/16) (copy forwarded to members by e-mail on 26/1/16).

Cyflwynodd y clerc ddogfen y Risg Asesiad i'r aelodau. Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Akira Shimazaki bod cynnwys y ddogfen yn gywir. Roedd pawb yn gytûn. Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer a'r clerc.

The clerk presented a copy of the schedule to the council. After a short discussion, it was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Akira Shimazaki that the full content of the schedule be accepted as correct. All members were in favour. The document was duly signed by the Mayor and clerk.

13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 19 Ionawr.
Confirmation of 19 January Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y cofnodion yn gywir.

Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1075 ("Soap Box Derby"): Mae cwmni Sainsbury's wedi gwrthod caniatâd i gynnal y ras ar y safle yno. Cytunodd y Cyng. Clive Davies hel gwybodaeth am berchenogaeth y tir. Mae Mr Ben Cramp yn bwriadu gofyn i gwmni bysiau'r Brodyr Richards ynglŷn ag opsiwn Pentwd.

Page 1075 (Soap Box Derby): Sainsbury's have refused permission to use the land at Bath House. Cllr Clive Davies agreed to obtain information regarding the ownership of the land. Mr Ben Cramp is presently making enquiries with Richards Bros regarding the possible use of the site at Pentood.

Menter Aberteifi: Yn dilyn ymholiadau'r cyngor am fachau i hongian cotiau yn Neuadd y Dref, dywedodd y Cyng. Jane Roche bod y swyddogion yn dweud ei bod yn amhosib gosod bachau ar gefn y drysau am resymau iechyd a diogelwch. Maent yn barod i ystyried gosod drws mewnlol i gadw allan yr oerfel ger Ystafell Radley er fod ganddynt flaenoriaethau eraill, megis gwario arian ar gynnal a chadw, gwresogydd, ayyb.

Menter Aberteifi: Following enquiries by the town council for Menter to place coat-hanging hooks in the Guildhall, Cllr Jane Roche stated that the officers have refused the request due to health and safety reasons. They will consider constructing a new door near the main door entrance to exclude the wind chill; they added that other issues at present have priority, viz maintenance of buildings and heating.

Partneriaeth Canol Dref: Mae'r materion canlynol ar y gweill trwy gydweithio â Menter Aberteifi: cynllun datblygu arwyddion newydd a system diwifren i'r dref.

Town Centre Partnership: With the collaboration of Menter Aberteifi, the following matters are under consideration: new signs and signposts and wi-fi systems throughout the town.

Ymddiriedolaeth Dreftadaeth Ddinesig: Trefnir cyfarfod i sefydlu grŵp newydd i edrych ar hanes a threftadaeth gyfoethog Aberteifi nos Fercher, 10 Chwefror am 6.00yh yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr. Disgwylir cynrychiolwyr o bob grŵp lleol, megis CADAMM, Hanes 2010, ayyb. Cytunodd y Cyngorwyr John Adams-Lewis, Clive Davies a Jane Roche fynychu'r cyfarfod.

Heritage Civic Trust: A meeting to establish a group to study the rich history and heritage of Cardigan will be held on Wednesday, 10 February at 6.00pm at the Fisherman's Rest. Representatives from CADAMM and Hanes 2010, amongst others, are expected to be present. Cllrs John Adams-Lewis, Clive Davies and Jane Roche agreed to represent the council.

Cyngor Ieuenctid: Cynhelir seremoni gwobrwyo ieuenctid y fro sydd wedi gwneud cyfraniad allweddol i'w grŵp/cymdeithas, yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr, nos Fercher, 2 Mawrth am 7.20yh. Bydd y Maer yn cyflwyno'r Tystysgrifau o Gydnabyddiaeth i'r rhai a enwebwyd.

Youth Council: The prize-giving ceremony to reward the young persons who have contributed positively to their group/organisation will be held at the Fisherman's Rest on Wednesday, 2 March at 7.20pm. The Mayor will present the nominees with a Certificate of Recognition.

14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- (a) **Codwyd y broblem o barcio ar y ffordd yn Brecon Terrace/Teifi Terrace gan y Cyng. Graham Evans. Awgrymwyd bod y cyngor sir yn gosod arwydd “Dim parcio” ar y lleoliad.**
- (b) **Ychwanegodd y Cyng. Evans bod slab wedi gweithio’n rhydd ar Gei Tywysog Siarl. Cytunodd y Cyng. Catrin Miles roi gwybod i’r cyngor sir.**
- (a) Cllr Graham Evans raised the problem of parking on the roadside at Brecon Terrace/Teifi Terrace. It was recommended that a “No parking” notice be placed at a suitable location.
- (b) Cllr Evans added that a slab had worked loose on Prince Charles Quay. Cllr Catrin Miles agreed to inform the county council.

Gan nad oedd materion pellach i’w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.50yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.50pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date